| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **6 Mawrth 2014** |
| **Aelodau Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol Parth y Cyhoedd/Arweinydd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a Phennaeth Tai a Datblygu Cymunedol** |
| **Teitl:** | **Polisi Parcio ac Ymarfer Cwmpasu'r Adolygiad o Draffig a Pharcio** |

---

## 1. Beth yw testun yr adroddiad?

Yn gyntaf, mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg ar y polisi parcio newydd drafft sydd wedi'i lunio. Bydd yn cymryd lle'r polisi parcio blaenorol sy'n dyddio'n ôl i 1996. Yn ail, mae'n adrodd ar yr ymarfer cwmpasu sydd wedi'i gyflawni i asesu opsiynau ar gyfer cynnal Adolygiad o Draffig a Pharcio ar gyfer y prif drefi yn Sir Ddinbych.

## 2. Beth yw'r rheswm dros roi'r adroddiad hwn?

Mae'r adroddiad hwn yn dilyn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau ym mis Tachwedd 2013 ac sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad A er hwylustod. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Tachwedd, derbyniwyd yr argymhellion yn yr adroddiad ar gyfer adolygu'r polisi parcio a chynnal ymarfer cwmpasu i asesu'r opsiynau ar gyfer Adolygiad o Draffig a Pharcio.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor:

3.1. Yn darparu sylwadau ac yn cefnogi'r bwriad i gyflwyno'r polisi parcio newydd sydd wedi'i ddrafftio;

3.2. Yn darparu sylwadau ac yn cymeradwyo'r dull o gynnal adolygiad o draffig a pharcio sydd wedi'i awgrymu ar gyfer y trefi sydd wedi'u rhestru yn y papur hwn.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. <u>Polisi Parcio Newydd Drafft</u>

Fel y nodwyd uchod, cafodd y Polisi Parcio presennol ei gyflwyno ym 1996. Mae copi ohono wedi'i gynnwys yn Atodiad B i'r adroddiad hwn er hwylustod. Er bod nifer o eitemau yn y Polisi presennol sy'n berthnasol o hyd, mae rhai eitemau wedi'u disodli oherwydd datblygiadau eraill a gafwyd ers hynny. Un enghraifft o hyn yw bod yr hen Bolisi'n datgan y bydd y Cyngor yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio; cyflwynwyd Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio ar ôl hynny yn 2004.

Mae'r polisi newydd wedi'i ddrafftio ar y cyd gan staff yn yr Adran Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a staff yn y Tîm Busnes a Datblygu Economaidd. Mae wedi'i gynnwys yn Atodiad C fel y gellir cyfeirio ato. Pwrpas y dull hwn o weithredu oedd cydnabod bod rheolaeth effeithiol ar barcio yn gallu cyfrannu at hybu'r economi

leol a drafftio'r polisi gan ddal sylw ar hynny. Er bod ymchwil flaenorol wedi dangos mai'r arlwy manwerthu yw'r ffactor pwysicaf sy'n effeithio ar nifer yr ymwelwyr a'r perfformiad o ran manwerthu yng nghanol trefi, nid oes amheuaeth nad yw system barcio drefnus yn gallu hybu canolfannau manwerthu.

Mae deg blaenoriaeth yn y polisi newydd sydd wedi'u rhestru isod:

(i) Mewn ardaloedd trefol preswyl, bydd y Cyngor yn annog modurwyr i ddefnyddio mannau parcio oddi ar y stryd os ydynt ar gael. Dim ond mewn lleoedd lle y mae diogelwch, amwynder neu'r angen i gadw neu wella capasiti'r ffordd yn brif ystyriaeth y bydd y Cyngor yn cyflwyno cyfyngiadau parcio.

(ii) Bydd y Cyngor yn cyflwyno cynlluniau parcio preswylwyr ar ôl cael cais os oes digon o gefnogaeth gan breswylwyr ac os yw'r cynlluniau'n ymarferol.

(iii) Bydd y Cyngor yn parhau i hyrwyddo cynlluniau Llwybrau Diogel yn y Gymuned i geisio lleihau'r galw am barcio o gwmpas ein hysgolion.

(iv) Bydd y Cyngor yn adolygu achosion o barcio ar droetffyrdd ac yn defnyddio mesurau gorfodi, cyhoeddusrwydd neu ddulliau peirianyddol, fel y bo'n briodol, i sicrhau na fydd rhwystrau ar lwybrau cerddwyr ac i leihau difrod i droetffyrdd.

(v) Bydd y Cyngor yn darparu mannau parcio arhosiad byr ar y stryd yng nghanol trefi i ategu'r ddarpariaeth o fannau parcio oddi ar y stryd, ar yr amod bod hynny'n gyson ag ystyriaethau o ran diogelwch ffyrdd, capasiti ac amwynder gweledol.

(vi) Bydd y Cyngor yn rheoli'r meysydd parcio y mae'n berchen arnynt i ddarparu mannau parcio arhosiad byr yn agos i'r prif strydoedd siopa a meysydd parcio arhosiad hir yn bellach o ganol trefi i gymudwyr ac at ddibenion arhosiad hir eraill.

(vii) Rhoddir blaenoriaeth i ddiwallu anghenion parcio pobl anabl. Mewn meysydd parcio y mae'r Cyngor yn berchen arnynt ac yn eu rheoli, dynodir mannau cadw ar gyfer deiliaid y Bathodyn Glas fel a ganlyn:-

a. ar gyfer meysydd parcio sy'n gysylltiedig â safleoedd cyflogaeth ac sydd wedi'u darparu ar gyfer gweithwyr ac ymwelwyr:
   bydd 5% o'r mannau parcio wedi'u dynodi

b. ar gyfer meysydd parcio sy'n gysylltiedig ag ardaloedd siopa, cyfleusterau hamdden neu adloniant, a lleoedd sy'n agored i'r cyhoedd:
   bydd o leiaf un man parcio ar gyfer pob gweithiwr sy'n fodurwr anabl, ynghyd â 6% o'r holl fannau parcio ar gyfer modurwyr anabl sy'n ymweld.

(viii) Bydd y Cyngor yn hyrwyddo camau i ddarparu cilfannau a meysydd parcio i ateb y galw am barcio i ddibenion hamdden mewn ardaloedd gwledig.

(ix) Bydd y Cyngor yn cynnal patrolau gorfodi rheolaidd gan eu rhannu'n gyfartal ar draws y Sir ac yn sicrhau hefyd fod amlder y camau gorfodi'n gymesur â'r galw am barcio, gan gadw hyblygrwydd i ymateb i geisiadau

am orfodi mewn mannau penodol. Cyflawnir camau gorfodi ar adegau anarferol (e.e. gyda'r hwyr) os bydd anghenion penodol wedi'u nodi.

(x) Bydd y Cyngor yn parhau i ddatblygu system codi tâl ar gyfer mannau parcio sy'n ystyriol o anghenion ei breswylwyr, busnesau ac ymwelwyr a bydd yn ei hadolygu'n flynyddol.

4.2 Adolygiad o Draffig a Pharcio

4.2.1 Cam gweithredu 5.1d yn *Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol* y Cyngor yw cynnal Adolygiad o Draffig a Pharcio ar gyfer y prif drefi yn Sir Ddinbych. Gall hyn fod yn waith sylweddol a drud iawn ac, oherwydd hynny, cynhaliwyd ymarfer cwmpasu. O ganlyniad i'r ymarfer hwn, datblygwyd methodoleg arfaethedig ar gyfer yr Adolygiad o Draffig a Pharcio sydd wedi'i disgrifio yn y paragraffau sy'n dilyn. Mae'r fethodoleg fanwl wedi'i chynnwys yn Atodiad D. Cyflwynwyd y fethodoleg arfaethedig i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd a Chymunedol yn ei gyfarfod ar 11 Chwefror 2014 fel bod modd cynnwys adborth gan y Bwrdd yn y fethodoleg.

4.2.2 Mae'r Adolygiad o Draffig a Pharcio wedi'i gynnig er mwyn gwerthuso'r ffordd y bydd rheolaeth ar barcio a thraffig yn gallu cyfrannu at gyflawni'r flaenoriaeth gorfforaethol o hybu busnesau lleol. Er bod ymchwil wedi dangos mai'r arlwy manwerthu yw'r prif ffactor sy'n effeithio ar berfformiad canol trefi, mae'n amlwg bod rheolaeth effeithiol ar barcio'n gallu helpu canolfannau manwerthu. Rhaid cydnabod hefyd, o safbwynt rheoli traffig, nad y ddarpariaeth parcio yw'r unig ddylanwad ar fywiogrwydd a llewyrch canol trefi. Er enghraifft, mae arwyddion da yn bwysig hefyd, yn ogystal â darparu mynediad diogel ar gyfer cerddwyr, beicwyr, cludiant teithwyr a'r rheini sy'n ei chael yn anodd symud o gwmpas. Yn yr un modd, mae gormod o dagfeydd traffig neu benrhyddid wrth barcio yn gallu creu amgylchedd anatyniadol, anniogel a di-groeso.

4.2.3 Mae'r peiriannau talu ac arddangos presennol ym meysydd parcio'r Cyngor yn rhoi data ar gyfanswm yr incwm a niferoedd y gwahanol dariffau tocyn a roddwyd e.e. nifer y tocynnau 50 ceiniog a brynwyd. Er hynny, mae diffyg data ar hyn o bryd am batrymau ymweld, union hyd yr arhosiad, defnydd o fannau parcio ar wahanol adegau o'r diwrnod neu ar wahanol ddyddiau'r wythnos ac yn y blaen. Oherwydd hyn, mae'n fwy anodd gwerthuso costau'r senarios posibl, er enghraifft, cynnig gostyngiadau ar adegau neu ddyddiau penodol yn ystod yr wythnos.

4.2.4 Y man cychwyn i'r adolygiad o barcio fydd casglu gwybodaeth ar ffurf arolygon traffig ac ymchwil gymdeithasol. Bydd yr arolygon traffig yn rhoi gwybodaeth am y patrymau presennol. Bydd yr ymchwil gymdeithasol yn targedu busnesau a chwsmeriaid. Pwrpas yr ymchwil gymdeithasol fydd cael gwell dealltwriaeth o'r rhesymau sylfaenol dros y patrymau ymweld presennol a hefyd ceisio deall pa ymyriadau a all wella'r patrymau hynny, er enghraifft, drwy ddenu mwy o ymwelwyr i ganol ein trefi. Mae'r tîm Busnes a Datblygu Economaidd hefyd yn bwriadu cynnal ymchwil gymdeithasol i batrymau manwerthu a chynigir y bydd hyn yn cael ei gyfuno â'r ymchwil gymdeithasol yn yr adolygiad o draffig a pharcio.

4.2.5 Cam olaf yr Adolygiad fydd pennu ffyrdd posibl o sicrhau bod rheolaeth ar draffig a pharcio yn cael dylanwad gwell ar ganol trefi.

## 5. Sut y bydd y penderfyniad yn cyfrannu at gyflawni'r Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd yn cyfrannu at gyflawni'r blaenoriaethau ar gyfer "Datblygu'r economi leol" a "Gwella ein ffyrdd".

## 6. Beth fydd ei gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae'r fethodoleg astudio fanwl a atodwyd wedi cael ei pharatoi gan ymgynghorwyr sydd â phrofiad o gynnal adolygiadau o'r math hwn. Oherwydd natur arbenigol yr adolygiad a'r adnoddau sydd eu hangen i'w gynnal, ni fydd yn bosibl ei gynnal yn fewnol. Mae'r ymgynghorwyr wedi darparu amcangyfrifon isel, canolig ac uchel o gostau pob un o gamau'r adolygiad. Mae hyn yn rhoi amcangyfrif cyffredinol o'r gost sydd rhwng £40,000 a £95,000. Fodd bynnag, o wybod y bydd cyfle i gyfuno'r ymchwil gymdeithasol a darparu llawer o wybodaeth am y cyflenwad presennol (nifer y mannau parcio etc.) yn fewnol, awgrymir y bydd hyn yn arwain at amcangyfrif o £50,000 ar gyfer cost yr adolygiad.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y penderfyniad?

Mae'r polisi parcio yn argymell pennu niferoedd sylfaenol o fannau parcio i bobl anabl yn unol â dogfen yr Adran Drafnidiaeth, "Inclusive Mobility". Bydd anghenion y rheini sydd â rhwystr ar eu gallu i symud o gwmpas yn cael eu hystyried yn llawn wrth gynnal yr Adolygiad o Draffig a Pharcio a bydd hyn yn cynnwys ymgynghori â sefydliadau sy'n cynrychioli pobl sydd â rhwystr ar eu gallu i symud o gwmpas. Mae dogfen yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i chynnwys yn Atodiad E.

## 8. Pa ymgynghori a gafwyd â phwyllgorau Archwilio ac eraill?

Rhoddwyd adroddiad am y bwriad i adolygu'r polisi parcio a chwmpasu'r Adolygiad o Draffig a Pharcio i'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau ym mis Tachwedd.

## 9. Datganiad gan y Prif Swyddog Cyllid

Rhaid cynnal yr adolygiad o bolisi parcio'r Cyngor o fewn y cyllidebau gwasanaeth presennol. Bydd angen asesu'r effaith ar gostau a lefelau incwm yn ystod yr adolygiadau. Bydd angen ystyried y pwysau presennol ar gyllidebau, yng nghyswllt meysydd parcio Prestatyn a'r Rhyl yn bennaf, yn ystod yr adolygiadau hyn.

## 10. Pa risgiau sy'n bod ac a allwn wneud rhywbeth i'w lleihau?

Nid oes unrhyw risgiau arwyddocaol yn gysylltiedig â chyflwyno polisi parcio newydd neu gynnal Adolygiad o Draffig a Pharcio.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae Erthygl 6.3.3 o Gyfansoddiad y Cyngor yn pennu pwerau'r Pwyllgor Archwilio mewn cysylltiad â datblygu ac adolygu polisïau.

**Swyddog Cyswllt:**
Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch Ffyrdd
Ffôn: 01824 706959